

Sut i wneud Busnes gyda Heddlu Gwent: Canllaw i Gyflenwyr

Mae Heddlu Gwent yn gwario tua £65 miliwn y flwyddyn ar nwyddau a gwasanaethau, gan ddarparu ystod eang o gyfleoedd masnachol i sefydliadau o bob maint.

Bwriad y canllaw hwn yw rhoi gwybodaeth am weithdrefnau gosod contractau'r heddlu ac esbonio sut i wneud cais am gontractau sydd wedi'u hysbysebu, yn ogystal â beth i'w ddisgwyl gan gyflenwyr sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau i'r heddlu.

Rydym yn annog cystadleuaeth ac yn croesawu ceisiadau gan gyflenwyr newydd a sefydledig. Bydd busnes yn cael ei ddyfarnu ar sail gwerth am arian i'r trethdalwr. Ni allwn wahaniaethu o blaid cyflenwyr lleol, ond byddant yn cael pob anogaeth i gystadlu am gontractau.

Beth sydd ei angen arnaf er mwyn cael fy ystyried yn gyflenwr i Heddlu Gwent?

Cyn i ni eich ystyried chi fel cyflenwr, bydd angen i chi gael rhai polisiâu a gweithdrefnau ar waith...

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae dyletswydd ar Heddlu Gwent i hyrwyddo cyfle cyfartal a dileu gwahaniaethu ac aflonyddwch anghyfreithlon a sicrhau na chaiff arian cyhoeddus ei wario ar arferion gwahaniaethol nac ar adael i anghydraddoldeb anghyfiawn neu anghyfreithlon barhau yn ein prosesau caffael cyhoeddus.

Cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac unrhyw Godau Ymarfer cysylltiedig.

Gellid gofyn i'r contractwyr ddarparu datganiad ysgrifenedig o'u Polisiâu Amrywiaeth a Chyfle Cyfartal a manylion ar sut y cânt eu rhoi ar waith.

Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Mae Heddlu Gwent'n ymroi i leihau'r effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd trwy ailgylchu, defnyddio ffynonellau adnewyddadwy, lleihau'r defnydd o danwydd ac egni a sicrhau y ceir gwared ar ddeunydd gwastraff yn briodol. Ceisiwn fynd ati i wneud busnes gyda chwmnïau sy'n ymrwymo'n glir i ddiogelu'r amgylchedd. Bydd angen polisi amgylcheddol a thystiolaeth ategol lle y bo'n berthnasol i'r contract.

Iechyd a diogelwch

Cydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Mae'n bosibl y bydd angen copïau o bolisiâu'r cwmni.

Yswiriant

Bydd lefel yr yswiriant sydd gan gyflenwr yn dibynnu ar y math o nwyddau/gwasanaeth a gynigir a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hynny. Ystyrir pob contract yn annibynnol a chaiff gofynion yswiriant digonol eu cymhwyso yn unol â hynny. Gofynnir i'r contractwyr amgáu copïau o'r dogfennau yswiriant angenrheidiol i brofi bod gan y contractwyr y sicrwydd yswiriant angenrheidiol, gan gynnwys atebolrwydd cyhoeddus, atebolrwydd cyflogwyr a lle y bo'n briodol, indemniad proffesiynol.

Asesiad ariannol

Mynd trwy asesiad ariannol – ar gyfer contractau sydd dros y trothwy caffael cyhoeddus (a arferai gael ei adnabod fel OJEU), bydd yn ofynnol i'r contractwyr ddarparu eu cyfrifon archwiliedig dros y tair blynedd diwethaf fel rheol.

Gofynion Fetio

Bydd staff y contractwyr perthnasol yn cael ei fetio i'r lefel briodol fel y bo'n ofynnol gan yr Heddlu.

Sylwch mai'r isafswm gofynion yw'r rhain. Efallai y bydd angen polisiau ac amodau pellach ar gyfer rhai contractau.

Tendro

Yn aml iawn, gall tendro a gosod contractau ymddangos yn ddryslyd ac yn fiwrocraidaidd i gyflenwyr ac fe'i hystyrir yn rhwystr i fusnesau bach a chanolig eu maint (BBaChau)

Fodd bynnag, rydym wedi gwneud ymdrechion i leihau faint o wybodaeth rydym yn gofyn i'r cyflenwyr amdani er mwyn i'r wybodaeth y gofynnwn amdani fod yn berthnasol ac yn gymesur i'r contract penodol dan sylw. Ein nod yw cael proses mor dryloyw â phosibl.

Dylid cofio ein bod yn gwario arian cyhoeddus ac yn cael ein harchwilio drwy ganllawiau a phrosesau llym. Nod Heddlu Gwent yw cyflawni'r gwerth gorau ym mhopeth a brynwn.

Mae cytundebau fframwaith cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn darparu mynediad i farchnad sy'n llawer ehangach na'r arfer i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau. Drwy gymryd rhan mewn contractau consortia, cytundebau fframwaith a thendro electronig, gall cyflenwyr ehangu i farchnadoedd llawer mwy.

Rydym yn gwneud y canlynol wrth wahodd cwmnïau i dendro:

- Pennu ein hanghenion o ran allbynnau pan fo'n briodol, er mwyn annog arloesedd;
- Gwahodd tendrau gan ddigon o gyflenwyr i sicrhau bod y gystadleuaeth yn ddilys;
- Sicrhau bod y gweithdrefnau a'r dogfennau tendro mor glir a chryno â phosibl, ac ond yn gofyn am y wybodaeth angenrheidiol i werthuso ceisiadau;
- Rhoi gwybod i bob tendrwr am y meini prawf gwerthuso a'r pwysoliadau y bydd

y penderfyniad i ddyfarnu'r contract yn seiliedig arnynt;

- Darparu'r un wybodaeth a chyfleoedd i bob tendrwr.

Trothwyon tendro

Rhaid i'r cwmnïau sy'n gwneud cais am fusnes Heddlu Gwent ddilyn y weithdrefn dendro briodol. Po fwyaf yw gwerth rhagamcanol y nwyddau, gwaith a gwasanaethau, y mwyaf trwyadl fydd y weithdrefn dendro.

Os bydd y cyfle busnes yn syml iawn a'r gwerth islaw'r trothwy i wahodd tendrau, yna gofynnir am ddyfynbris. Os caiff y cyfle busnes ei brisio i fod uwchlaw'r Trothwy Caffael Cyhoeddus perthnasol, byddwn yn gwahodd tendrau fel rheol.

Ar gyfer pryniannau sydd uwchlaw'r trothwy Caffael Cyhoeddus, bydd tendrau'n cael eu gwahodd yn unol â'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus. Bydd y gofynion hyn yn cael eu hysbysebu fel rhai gofynnol yn y Gwasanaeth Find a Tender, Contracts Finder a GwerthwchlGymru. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd proses dendro'n golygu gofyn i'r cyflenwyr â diddordeb i ateb cwestiynau cymhwyster. Bydd hyn yn galluogi'r Heddlu i sicrhau bod darpar gyflenwyr yn gyfreithiol, ariannol a thechnegol gadarn. Dim ond y rhai fydd yn llwyddo yn y cam cymhwyso fydd yn cael gwerthusiad o'u tendr llawn.

Rhaid dogfennu pob gwariant cyhoeddus yn llawn, o'r penderfyniad cychwynnol a'r awdurdodiad i brynu, i'r dyfarniad terfynol. Nod ein polisi caffael yw bod yn deg, yn rhesymol ac yn hollol dryloyw, gan roi cyfle cyfartal i bob cynigydd. Cyflawnir hyn drwy ddefnyddio meini prawf gwerthuso wedi'u cytuno ymlaen llaw. Fel rheol, y 'Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd' fydd hwn. Rhaid cynnal y broses gaffael mewn ffordd y gellir craffu arni ac sy'n dangos ei bod wedi cael ei chynnal yn briodol.

Y Broses Gaffael

Nodi Gofynion

Mae gweithgareddau caffael yn dechrau trwy gysylltu â'r defnyddiwr terfynol/adran yn gynnar i gadarnhau'r gofynion. Pan fydd yr angen wedi'i ddiffinio'n glir, gallai hysbyseb gael ei gosod yn un o'r canlynol, yn dibynnu ar natur a gwerth y pryniant.

Hysbysebu ein Gofynion

Nid yw Heddlu Gwent yn cynnal rhestr o gyflenwyr cymeradwy ond mae'n

defnyddio sawl dull o roi cyhoeddusrwydd i gyfleoedd busnes. Bydd y dulliau a ddefnyddir yn dibynnu ar natur a gwerth y cyfle.

<https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/>

Mae **defnyddio'r** ffwythiant Chwilio yn ffordd syml o ddod o hyd i gyfleoedd i'ch busnes ddarparu nwyddau, gwaith neu wasanaethau i'r sector cyhoeddus. Menter Llywodraeth Cymru yw GwerthwchIGymru sy'n helpu BBaChau (busnesau bach a chanolig eu maint) i weithio'n llwyddiannus gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus.

[Hafan | Find a Tender \(findatenderservice.co.uk\)](https://www.findatenderservice.co.uk)

Defnyddir y gwasanaeth hwn ar gyfer pob cyfle i dendro sydd dros y trothwy caffael cyhoeddus presennol (a arferai gael ei adnabod fel OJEU).

<https://www.gov.uk/contracts-finder>

Mae Contracts Finder yn caniatáu i chi chwilio am wybodaeth am gontractau gyda'r llywodraeth a'i hasiantaethau.

Gallwch ddefnyddio Contracts Finder i wneud y canlynol:

- chwilio am gyfleoedd am gontractau mewn sectorau gwahanol
- darganfod beth sydd ar ddod yn y dyfodol
- chwilio am fanylion tendrau a chontractau blaenorol

Caffael Electronig

Caiff e-gaffael ei ymgorffori'n llawn yn ein dulliau gweithio.

Cynhelir y broses gaffael ar-lein, h.y. cofrestrriad y cyflenwr/mynegi diddordeb, lawrlwytho'r contract, cyflwyno dogfen gynnig, gwerthuso tendrau, dyfarnu'r contract. Mae'n darparu ffordd syml, diogel ac effeithlon o reoli gweithgareddau tendro, gan leihau'r amser a'r ymdrech sy'n ofynnol i brynwyr a chyflenwyr.

Drwy ddefnyddio gwefan eDendrocymru, bydd yr holl ddogfennaeth yn cael ei chyfnwid yn electronig, heb unrhyw gost i'r cyflenwr.

Mae buddiannau e-gaffael yn cynnwys:

- Gwell rheolaeth ar y broses dendro
- Mwy o dryloywder
- Llai o botensial am anghydfodau

- Llai o gostau
- Cyfathrebu gwell
- Derbyn tendrau yn syth

Ble i ymateb i gyfleoedd tendro Heddlu Gwent

Er mwyn edrych ar ein cyfleoedd wrth iddynt godi, cofrestrwch eich cwmni yn: [edendrocymru: y porth edendro ar gyfer Gwerth Cymru \(bravosolution.co.uk\)](http://edendrocymru: y porth edendro ar gyfer Gwerth Cymru (bravosolution.co.uk))

Os bydd angen unrhyw gymorth arnoch i gofrestru eich cwmni neu edrych ar dendrau, defnyddiwch y cymorth ar-lein

[etenderwales: e-tendering portal for Value Wales \(bravosolution.co.uk\)](http://etenderwales: e-tendering portal for Value Wales (bravosolution.co.uk))

Edrych ar y Tendr

Fel rheol, mae 3 elfen i'r broses dendro, Cam Cymhwyso, Cam Technegol a Cham Masnachol. Dylai cyflenwyr sydd â diddordeb mewn tendro sicrhau eu bod yn darllen pob un o'r dogfennau a ddarperir a chwblhau pob cwestiwn perthnasol yn y 3 cham. Ni fydd y cyflenwyr hynny sy'n methu â bodloni'r meini prawf gofynnol yn destun gwerthusiad pellach. Caiff pob ymarfer caffael ei drin yn unigol ac nid fel proses safonol. Bydd angen i rai fynd trwy driniaeth fwy cymhleth a dyrys ac felly byddant yn cymryd mwy o amser na'r lleill.

Cynghorion ar Dendro

- Cadwch eich manylion yn gyfredol ar GwerthwchlGymru ac eDendrocymru fel na fyddwch yn colli allan ar gyfleoedd.
- Dychwelwch eich cyflwyniad tendro erbyn y dyddiad a'r amser cau a bennwyd. Wrth gyflwyno tendr yn electronig, dylid rhoi ystyriaeth ddyledus i'r amser y gallai gymryd i lanlwytho unrhyw atodiadau trwy borth y we. Mae'n debygol y bydd unrhyw ddogfennaeth heb ei chyflwyno erbyn y dyddiad a'r amser cau a bennwyd yn cael ei heithrio o'r gwerthusiad.
- Cofiwch ymateb i unrhyw gais am eglurhad neu wybodaeth bellach erbyn y dyddiad penodedig.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani yn y ddogfennaeth Gwahoddiad i Dendro.
- Peidiwch â newid y dogfennau tendro a ddychwelwch o gwbl, oni bai y gofynnir i chi wneud hynny.
- Dim ond y wybodaeth sy'n ofynnol y dylech ei darparu a sylwch ar unrhyw

gyfyngiadau geiriau sy'n berthnasol wrth ymateb i gwestiwn. **Ni** fydd gwybodaeth ychwanegol, nas gofynnwyd amdani, yn cael ei hystyried wrth sgorio/dyfarnu'r contract.

- Os nad ydych yn siŵr am unrhyw agwedd ar y tendr yn ystod y broses dendro, dylech gysylltu â ni bob tro i gael cymorth trwy'r cyfleuster anfon negeseuon yn y system edendro.

Gwerthuso

- Camsyniad cyffredin yw bod "gwerth am arian" yn gyfystyr â'r "rhataf ni waeth beth yw'r fanyleb". Mae'r Heddlu'n chwilio am gynhyrchion a gwasanaethau o ansawdd yn ogystal â phrisiau isel/cystadleuol a rheolaeth dda ar y contract ar ôl iddo gael ei ddyfarnu.
- Mae'r Heddlu'n ceisio dyfarnu contractau bob amser i'r cyflenwr sy'n cyflwyno'r tendr mwyaf manteisiol yn economaidd sy'n bodloni'r fanyleb.

Dyfarnu'r Contract

Dyfernir y contract i'r cyflenwr /cyflenwyr llwyddiannus.

Dadfrifio

Lle mae caffaeliad uwchlaw'r trothwy caffael cyhoeddus, mae gan yr Heddlu rwymedigaeth i frifio'r cyflenwyr aflwyddiannus a rhoi rhesymau pam roeddent yn aflwyddiannus.

Gweithredu

Mae Heddlu Gwent a'r cyflenwr yn cydweithio i sicrhau bod y contract yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.

Rheoli Contractau

Ar ôl i'r contract gael ei ddyfarnu, bydd y cleient/defnyddiwr y contract a'r adran Gaffael yn gweithio gyda'r cyflenwr llwyddiannus i sicrhau bod y contractwr yn perfformio yn unol â'r fanyleb a thelerau ac amodau'r contract. Mae gweithdrefnau monitro effeithiol yn hanfodol i sicrhau gwerth am arian a byddant yn dibynnu ar natur y nwyddau neu'r gwasanaethau a brynir. Rydym yn disgwyl cyfraniad rhagweithiol gan gyflenwyr megis awgrymiadau i arbed costau trwy ddulliau gwella parhaus.

Anelwn at feithrin cydberthynas weithio dda â'r cyflenwr a'i staff gan fod hyn yn rhoi'r cyfle i sicrhau bod gofynion y contract sydd wedi'u hymgorffori yn y contract yn cael eu gorfodi.

Talu anfonebau'n brydlon

Mae Heddlu Gwent'n cydnabod pwysigrwydd llif arian i bob cwmni, yn enwedig cwmnïau bach, ac mae ganddo bolisi clir i dalu biliau yn unol â thelerau'r contract. Lle nad oes telerau contract wedi'u pennu, mae gennym bolisi i dalu ymhen 30 diwrnod calendr o dderbyn anfoneb gywir.

Gallwch helpu i wneud yn siŵr y caiff anfonebau eu talu'n brydlon drwy sicrhau eich bod yn cael rhif archeb prynu swyddogol cyn darparu nwyddau/gwasanaethau, gwirio bod holl fanylion yr anfoneb yn gywir a chynnwys y rhif archeb arni a sicrhau bod y cyfeiriad cywir ar yr anfoneb.

Rhowch wybod i ni am newidiadau i enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost neu fanylion banc cyn gynted â phosibl. Er mwyn ein helpu i dalu'n gyflym, byddwn yn talu cyflenwyr drwy System Glirio Awtomataidd y Banciau (BACS).

Contractau Presennol Heddlu Gwent

Hyb gwybodaeth ar-lein yw'r **Bluelight Procurement Database (BLPD)** a'i nod yw gwella'r wybodaeth y gellir ei gweld am gontractau a phrosesau caffael i brynwyr yn y gwasanaethau brys yn y DU. Dylai'r cyflenwyr nodi mai dim ond i ddefnyddwyr cofrestredig o aelod awdurdodau yn y gwasanaethau brys y mae BLPD ar gael iddynt. Fodd bynnag, gall cyflenwyr edrych ar gontractau y mae Heddluoedd a'r Gwasanaethau Tân yn eu defnyddio ar hyn o bryd trwy glicio ar y ddolen [Bluelight Police Database](#)

Manylion Cyswllt Adran Gaffael Heddlu Gwent

Cyfeiriad E-bost: procurement@gwent.police.uk

Cyfeiriad Post:

Yr Adran Gaffael
Pencadlys Heddlu Gwent
Llantarnam
CWMBRAN
NP44 3FW